

Cefn Carnau

Lôn Cefn Carnau, Draenen Pen-y-Graig
Caerdydd, CF83 1LX

Ffôn: 02920 883 345

E-bost: cefnarnau@elysiumhealthcare.co.uk

Trosolwg o'r Gwasanaeth

Yng Nghefn Carnau, rydym yn darparu gwasanaeth adsefydlu diogel isel i oedolion sydd â diagnosis o anabled dysgu a allai fod â salwch meddwl, anhwylderau personoliaeth a chyflwr sbectrwm awtistig hefyd.

Mae ein gwasanaeth, a leolir yn agos at ganol tref Caerffili a chanol Caerdydd, yn cynnig ward wyth gwely i fenywod a wardiau â chwech ac wyth o welyau i ddynion.

Nod rhaglenni triniaeth yw lleihau'r problemau iechyd meddwl a'r ymddygiadau troseddol a godir mewn lleoliad adsefydlu diogel isel lle gellir rheoli a lleihau risgiau er mwyn caniatáu i gleifion gamu i lawr i amgylcheddau llai cyfyngol.

Model Gofal

Mae gan dîm amlddisgyblaethol yr ysbyty brofiad helaeth gyda thriniaeth sydd wedi ei thargedu tuag at ailsefydlu cleifion yn ddiogel yn y gymuned, pan fo hynny'n bosibl. Mae ein rhaglenni therapiwtig wedi eu cynllunio i fanteisio i'r eithaf ar botensial pob claf unigol ac i wella ansawdd ei fywyd. Rydym yn darparu asesiadau a thriniaethau therapi gwybyddol ymddygiadol fforensig arbenigol a thriniaethau sgiliau cymdeithasol, gan gynnwys rheoli dicter a phryder.

Darperir rhaglen wella pendantrwydd a sefydlogrwydd mewn perthynas hefyd. Rydym yn cynnig ystod gynhwysfawr o therapiau galwedigaethol a chyflenwol megis hyfforddiant sgiliau cymunedol, sydd â'r nod o wella urddas, hunan-barch a'r gallu i weithredu.



“Rhoer cryfder a chalon
Gyda phroblemau a rannwyf.
I leddfau bywyd cythryblus
Gan y rhai sy’n gwir ofalu.”

Cerdd gan glaf yn Elysium Healthcare
(cyfieithwyd o'r Saesneg)

Meini prawf derbyn

- addas ar gyfer oedolion dros 18 oed
- diagnosis o Anabledd Dysgu
- cleifion ag ystod eang o anghenion iechyd meddwl cymhleth
- efallai y bydd gan gleifion hanes fforensig neu hanes o gamddefnyddio sylweddau
- cleifion dan orchymyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (1983)

Y mesurau canlyniadau a risg a ddefnyddir

Rydym yn defnyddio ystod o fesurau canlyniadau sy'n cysylltu â siwrnai adfer My Shared Pathway a'r rhaglen gofal a thriniaeth, gan gynnwys HONOS Secure. Cofnodir ymddygiad troseddol a risgiau cysylltiedig yn rheolaidd drwy driniaethau penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, megis HCR-20 a START, sy'n cynnwys cydymffurfio â thriniaeth dirnadaeth ac atal ailwaeledd.

Llwybr Gofal

Ceir cyfleoedd i gleifion gamu i lawr yn Elysium, yn ogystal â gwasanaethau eraill yn yr ardal. Rydym yn annog cleifion i ddatblygu eu sgiliau cymunedol a byw er mwyn eu galluogi i symud i gam nesaf eu taith yn ddidrafferth.

Amgylchedd

Mae ein holl wardiau a'n hardaloedd therapi wedi cael eu hailwampio'n sylweddol yn ddiweddar, gyda'r cleifion dan sylw yn dewis y cynlluniau lliw, y dodrefn a'r ffitiadau newydd.

Mae gan ein tair ward eu gardd ar wahân eu hunain mewn man cymunedol mwy, sy'n cynnwys cwrt tennis a llain o randir.

Ceir canolfan therapi ar y safle sy'n cynnwys ystafell TG, cegin ymarfer, ystafell synhwyraidd a champfa fawr a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau.

